Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Prosiect Addasu Arfordirol

Borth i Ynyshir

Hoffem glywed gennych chi

Ymunwch â ni yn ystod digwyddiad galw heibio yng **Nghanolfan Gymunedol Borth**, ar **ddydd Sadwrn 21 Chwefror 2026** rhwng **1pm a 7pm.**

Borth to Ynyshir

Coastal Adaptation Project

We would like to hear from you

Join us at a drop in event, at **Borth Community Centre**, on **Saturday 21 February 2026** from **1pm until 7pm.**

Helô, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chyngor Sir Ceredigion (CSC) ydym ni.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd newid yn yr hinsawdd, a chynnydd yn lefel y môr, yn effeithio'n sylweddol ar lifogydd yng Nghymru. Wrth i'n hinsawdd newid, byddwn yn wynebu stormydd, glaw trwm a digwyddiadau ymchwydd llanw yn amlach gan gynyddu'r risg o lifogydd llanw. Mae'r newidiadau a'r heriau sy'n ein hwynebu yn sylweddol ac yn ddigynsail. Mae'r bygythiad hwn angen dulliau rheoli risg llifogydd cynaliadwy.

Gall addasu ar yr arfordir effeithio'n sylweddol ar drigolion lleol, busnesau, tirfeddianwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Rydym yn dymuno ymgysylltu'n effeithiol, meithrin perthnasoedd, a chydweithio â'r gymuned leol a rhanddeiliaid i:

- **Ddeall eich amgylchiadau lleol, pryderon, blaenoriaethau a dyheadau;**
- **Trafod syniadau a chynnig cyfleoedd i ddylanwadu ar gynlluniau a chanlyniadau; a**
- **Chynnig cyfleoedd i gymunedau lleol a rhanddeiliaid helpu i lunio'r rhaglen yn y dyfodol.**

Hello, we are Natural Resources Wales (NRW) and Ceredigion County Council (CCC).

Evidence suggests that climate change, and sea level rise, will have a significant impact on flooding in Wales. As our climate changes, we will face more frequent storms, heavy rain and tidal surge events increasing the risk of tidal flooding. The changes and challenges we face are significant and unprecedented. This threat requires sustainable flood risk management.

Adaptation on the coast may have significant impacts on local residents, businesses, landowners, and other key stakeholders. We want to engage effectively, build relationships, and work with the local community and stakeholders to:

- **Understand your local circumstances, concerns, priorities, and aspirations;**
- **Discuss ideas and provide opportunities to influence plans and outcomes; and**
- **Provide opportunities for local communities and stakeholders to help shape the future programme.**

Dewch draw i Ganolfan Gymunedol Borth i gwrdd â'r tîm, ac i ddysgu rhagor am Brosiect Addasu Arfordirol Borth i Ynyshir - ein nodau; a'n hamserlenni rhagamcanedig, a rhowch wybod i ni am eich profiadau, a'ch mewnwelediadau lleol.

Borth Community Hall, High St, Borth SY24 5LH

Dydd Sadwrn, 21 Chwefror 2026

1pm tan 7pm

Come along to Borth Community Centre to meet the team, and learn more about the Borth to Ynyshir Coastal Adaptation Project - our aims, and projected timelines, and tell us your experiences, and local insights.

Borth Community Hall, High St, Borth SY24 5LH

Saturday 21 February 2026

1pm until 7pm

Os dymunwch anfon eich syniadau drwy e-bost: **BYCA@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Neu ysgrifennwch at: **Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (nid oes angen stamp)

Neu ffoniwch: **03000 655264**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **bit.ly/AddasuArfordirolOrBorthIYnyshir**

If you would like to email your thoughts: **BYCA@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Or write to: **Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (no stamp required)

Or call: **03000 655264**

More information can be found at: **bit.ly/BorthToYnyshirCoastalAdaptation**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Caru·Love Ceredigion